18.12.19

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880450

Erthygl i'r Wasg **Press Article**

Cenedl dal yn trysori'r ddeuawd chwedlonol Ryan a Ronnie

Ryan a Ronnie yw sêr mwyaf poblogaidd yn hanes comedi Cymraeg. Fe gyrhaeddodd y ddeuawd - Ryan Davies a Ronnie Williams - ei hanterth yn y 70au ond mae'r ddau dal mor boblogaidd ag erioed.

Bydd rhaglen arbennig - **Goreuon Ryan a Ronnie** - ar S4C ar Ddydd Calan yn dathlu ac edrych yn ôl ar hanes Ryan Davies a Ronnie Williams a hefyd yn ceisio darganfod pam yr oeddent mor boblogaidd.

Trwy ddadansoddi talentau'r ddau - doniau sgriptio ac actio Ronnie a thalentau comedi a cherddorol Ryan - mae'r rhaglen yn cynnig golwg ffres ar y ddeuawd chwedlonol.

Cawn olwg hefyd ar y sgetsys unigryw a'r gwesteion stiwdio gan gynnwys y dramodydd uchel ei barch Gwenlyn Parry, y chwaraewr rygbi rhyngwladol Gareth Edwards a llawer mwy.

Cawn ein hatgoffa hefyd bod Ryan a Ronnie yn gantorion talentog. Bydd cyfle i fwynhau ac ail-fyw perfformiadau o glasuron megis *Yn y Bore*, *Blodwen a Meri* a *Pan fo'r Nos yn Hir* sy'n dod a gwên i'r wyneb ac ambell i ddeigryn i'r llygad.

Y digrifwr Tudur Owen sy'n cyflwyno'r rhaglen ond clywn hefyd gan sêr byd adloniant Cymru am eu hatgofion o'r ddeuawd, eu barn nhw am y rheswm tu ôl i lwyddiant Ryan a Ronnie a pham rydym ni dal yn eu trysori heddiw.

Dyma beth oedd ganddyn nhw i ddweud am Ryan a Ronnie:

Tudur Owen: "Roedd Ryan a Ronnie yr un mor boblogaidd yn y de ac yn y gogledd, ymysg Cymry Cymraeg a'r di-gymraeg ac yn agos at galonnau pob cenhedlaeth."

Margaret Williams, y gantores a pherfformiwr rheolaidd ar sioe Ryan a Ronnie: "Mi oedan nhw'n unigryw iawn - yn enwedig yn y cyfnod yna pan doedd 'na ddim sôn am ddeuawd ddigri. Ddaru pawb gymryd at Ryan a Ronnie achos mi oeddan nhw yn wahanol, oeddan nhw yn broffesiynol, oeddan nhw yn ddigri - oeddan nhw yn Gymreig."

Gillian Elisa, Actores a chantores: "O'n nhw'n dod allan o'r sgrin, o'n nhw'n gwybod sut i gyfathrebu gyda'r gynulleidfa. O'ch chi'n teimlo eich bod chi'n eu 'nabod nhw ac yn perthyn iddyn nhw."

Aled Pugh, digrifwr ac actor. Wnaeth Aled bortreadu Ryan yn y ffilm 2009 *Ryan a Ronnie*: "Gan fod Ryan a Ronnie yn nabod y gynulleidfa, oedden nhw'n mynnu eu bod nhw yn eu defnyddio nhw. Felly, oedd pobl yn gwybod eu bod nhw ddim jysd yn mynd i weld Ryan a Ronnie ond o'n nhw mynd i fod yn rhan o sioe Ryan a Ronnie - ac roedd hynna'n creu cyffro mawr."

Dewch i fwynhau awr o sgetsys, comedi digri gan Ryan a Ronnie ochr wrth ochr ac atgofion gan sêr Cymru.

Goreuon Ryan a Ronnie
Nos Mercher 1 Ionawr 9.00, S4C
Isdeitlau Saesneg
Ar gael ar alw ar S4C Clic s4c.cymru/clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Alpha ar gyfer S4C

18.12.19

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880450

Erthygl i'r Wasg **Press Article**

A fresh look at national treasures Ryan and Ronnie

Ryan and Ronnie are the most popular comedians in the history of Welsh comedy. The double-act – Ryan Davies and Ronnie Williams - reached the height of their success in the 1970s and they are still as popular as ever.

A special programme - **Goreuon Ryan a Ronnie** (The Best of Ryan and Ronnie) – on S4C on New Year's Day, will celebrate and look back on the story of the duo and try to discover the secret of their success.

By analysing their particular talents – Ronnie's skills as an actor and a scriptwriter and Ryan's musical and comedy talents – the programme offers a fresh look at the legendary duo.

Goreuon Ryan a Ronnie also takes a look at the unique sketches and the studio guests including the respected dramatist Gwenlyn Parry, international rugby player Gareth Edwards and many more.

We are reminded also, that Ryan and Ronnie were gifted singers. There will be a chance to enjoy performances of classics such as *Yn y Bore*, *Blodwen a Meri* a *Pan fo'r Nos yn Hir* which will bring a smile to the face and the odd tear too.

Comedian Tudur Owen presents the show but we also hear from stars of the world of entertainment in Wales about their memories of the double act and their opinions on why Ryan and Ronnie were so successful and why we continue to treasure them.

Here is what they have to say about Ryan and Ronnie:

Tudur Owen: "Ryan and Ronnie were just as popular in the south as they were in the north, among Welsh and non-Welsh speakers and close to the hearts of people of all ages."

Margaret Williams, singer and regular performer on the Ryan and Ronnie show: "They were completely unique – especially at a time when there wasn't really anything else of its kind. Everybody loved Ryan and Ronnie because they were different, they were professional, they were funny, they were Welsh."

Gillian Elisa, actor and singer: "They just jumped out of the screen – they knew how to communicate with their audience. You felt as if you knew them and were related to them."

Aled Pugh, actor and comedian. Aled portrayed Ryan in the 2009 film Ryan a Ronnie: "Because Ryan and Ronnie knew their audience, they were determined to use them. So, people knew they weren't just going to see Ryan a Ronnie, they were going to be a part of the Ryan and Ronnie show – and this created huge excitement."

So, come and enjoy an hour of sketches and unique comedy by Ryan and Ronnie side by side with the memories and impressions of some of Wales's top stars.

Goreuon Ryan a Ronnie
New Year's Day 9.00, S4C
English subtitles
Available on demand on S4C Clic s4c.cymru/clic, BBC iPlayer and other platforms
An Alpha production for S4C